# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

**HWLG(3)-20-09-papur 4**

## Ymchwiliad i'r Defnydd o Welyau Haul a'u Rheoleiddio – Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol


# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol


## Teitl: Tystiolaeth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Ddefnydd a Rheoleiddio Gwelyau Haul yng Nghymru

## Diben

Rwyf yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor i gynnal yr ymchwiliad hwn i welyau haul a chredaf y bydd yn codi proffil y risg i iechyd y cyhoedd o ganser y croen sy'n gysylltiedig â defnyddio gwelyau haul. Mae'r papur hwn yn darparu fy nhystiolaeth o safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i gwaith presennol i ddatblygu safbwynt polisi ar ddefnyddio gwelyau haul yng Nghymru, yn enwedig o ran y rhai sydd dan 18 oed.

## Cefndir

Mae'n hysbys bod pelydriad uwchfioled yn achosi niwed i DNA a hefyd meinweoedd y corff. Mae'n hysbys hefyd y gall y niwed hwn achosi mwtadiad a chanser a pheri i'r croen heneiddio cyn ei amser. Er mai heulwen yw un o brif ffynonellau pelydriad uwchfioled, mae gwelyau haul yn ffynhonnell sylweddol o belydriad uwchfioled i rai pobl.

Fel rheol fe ddosbarthir pelydriad uwchfioled dan fandiau tonfedd A, B ac C. Ar gyfer asesu diogelwch pelydriad uwchfioled, nid oes rheswm dros ystyried y bandiau tonfedd ar wahân.

Mae cyfraddau pob canser y croen yn cynyddu. Yn y DU yn 2005 cafwyd 9,500 o achosion newydd o un o ganserau'r croen sef melanoma - ac mae'r gyfradd yn cynyddu. Er ei fod yn un o'r mathau lleiaf cyffredin o ganser y croen, melanoma yw'r un mwyaf peryglus. Erbyn hyn, canserau'r croen yw'r math mwyaf cyffredin o ganser yn y DU. Mae'n debyg y bydd y gost i'r GIG yn sylweddol.

Mae'n hysbys bod derbyn dos uchel o belydriad uwchfioled yn achlysurol yn gysylltiedig â risg uwch o felanoma a bod y risg yn berthnasol i bobl o bob oed. Mae'r pelydriad a gynhyrchir gan lawer o'r gwelyau haul a ddefnyddir ar hyn o bryd yn gallu arbelydru croen y defnyddwyr â dos o belydriad uwchfioled sy'n cyfateb i belydriad effeithiol yr haul canol dydd yng ngwledydd Môr y Canoldir neu fwy na hyn. Darperir pelydriad o'r fath mewn dosau dwys a gellir eu darparu dros gyfnodau hir o amser.

Mae'r Asiantaeth Ryngwladol Ymchwil Canser wedi cydnabod y risg posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio gwelyau haul a dyfeisiau eraill sy'n rhoi lliw haul ac ar 30 Gorffennaf 2009 fe gododd ei dosbarthiad o'r dyfeisiau hyn yn garsinogen Grŵp 1. A siarad yn blaen, mae'r Asiantaeth yn ystyried gwelyau a lampau haul yn ddyfeisiau "carsinogenaidd i bobl" - h.y. gallant achosi canser.

Yn ôl yr Asiantaeth Ryngwladol Ymchwil Canser mae defnyddio gwelyau haul am y tro cyntaf cyn 35 oed yn cynyddu'r risg o felanoma malaen o 75%. Mae modelu mathemategol yn amcangyfrif y gall defnyddio gwelyau haul achosi tua 370 o achosion newydd o felanoma a 100 o farwolaethau bob blwyddyn yn y DU.

Mae tystiolaeth dda bod plant a'r glasoed yng Nghymru yn defnyddio gwelyau haul. Mae merched yn eu defnyddio'n amlach na bechgyn. Mae defnydd gan blant a'r glasoed wedi'i gofnodi mewn llefydd masnachol dan oruchwyliaeth a rhai heb eu staffio (gan ddefnyddio darnau arian).

Mae Cymdeithas y Gwelyau Haul, sef y Gymdeithas Fasnach sy'n cynrychioli'r gwneuthurwyr, yn amcangyfrif bod tua 8,000 o fannau masnachol ar gyfer defnyddio gwely haul yn y DU ac mae'r nifer hwn yn cynyddu. Credir mai dim ond un o bob pump o'r mannau hyn sydd wedi'u cofrestru gyda Chymdeithas y Gwelyau Haul. Ar ôl holi awdurdodau lleol yng Nghymru amcangyfrifwn fod dros 400 o fannau defnyddio gwely haul yng Nghymru. Dylid nodi bod mannau defnyddio gwely haul yn aml yn cynnwys nifer o wahanol welyau haul ond nid oes gennym unrhyw amcangyfrif ar gyfer nifer yr unedau gwely haul a ddefnyddir. Mae'r defnydd o welyau haul wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru ers y 1980au.

Mae llawer o sefydliadau iechyd y cyhoedd yn y DU, yn Ewrop a ledled y byd wedi lleisio eu pryder ynghylch y cynnydd yn nefnydd gwelyau haul, yn enwedig gan bobl ifanc. Adlewyrchir y cynnydd yn nefnydd gwelyau haul gan gynnydd yn nifer yr achosion o ganserau melanoma malaen croenol (sef prif achos marwolaethau trwy ganser y croen). Credaf fod y dystiolaeth wyddonol yn awgrymu bod y cyswllt rhwng mwy o ddefnydd o welyau haul a mwy o achosion o ganser y croen yn gyswllt achosol (h.y. bod y naill yn achos arwyddocaol o'r llall) a bod angen i lywodraethau fynd i'r afael â hyn fel risg i iechyd y cyhoedd.

Yn ôl adroddiad i'r Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol yn 2002 gan y Grŵp Ymgynghorol ar Belydriad nad yw'n Ïoneiddio ar effeithiau pelydriad uwchfioled ar iechyd, er na phrofwyd yn uniongyrchol bod gwelyau haul yn achosi canser y croen, maent yn

ffynhonnell sylweddol o belydriad uwchfioled dwys, achlysurol, ac oherwydd hynny gallent fod yn risg i iechyd. Argymhellodd y Grŵp Ymgynghorol y dylid annog pobl i beidio â defnyddio gwelyau haul a lampau haul i gael lliw haul am resymau cosmetig.

Anfonodd Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grynodeb Gweithredol o'r adroddodd at bob awdurdod lleol yng Nghymru yn 2002 gan wybod bod llawer o'r canolfannau hamdden dan eu rheolaeth yn darparu cyfleusterau gwely haul. Dechreuodd nifer y gwelyau haul mewn sefydliadau dan reolaeth awdurdodau lleol leihau bryd hynny ac mae'n dal i wneud. Fel enghraifft o weithred gan awdurdod lleol mewn perthynas â gwelyau haul hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at y cyhoeddiad gan Gyngor Bro Morgannwg ar 4 Medi 2009 y byddai'n cael gwared â'r gwelyau haul o bob un o'i ganolfannau hamdden.

Fodd bynnag, nid oes deddfwriaeth benodol ledled y DU sy'n rheoleiddio'r defnydd o welyau haul. Er bod y gwneuthurwyr yn cytuno y dylai pob gwely haul gydymffurfio â'r Safon Brydeinig (BS EN 60335-2-27: 2003) a hefyd ag argymhellion y Pwyllgor Gwyddonol ar Nwyddau Defnyddwyr mae'r Consol Suncenter wedi honni nad yw'r Safon Brydeinig hon yn cael ei gorfodi gan Lywodraeth y DU.

Mae diwydiant y gwelyau haul yn rheoleiddio ei hun trwy god ymarfer gwirfoddol a gynhyrchwyd gan Gymdeithas y Gwelyau Haul. Fodd bynnag, fel y nodais eisoes, mae llai na 25 y cant o'r llefydd sy'n cynnig lliw haul artiffisial yn y DU yn aelodau o'r Gymdeithas. O ganlyniad, nid oes gan y rhan fwyaf o'r llefydd unrhyw rwymedigaeth trwy aelodaeth i ddilyn y cod ymarfer hwn.

Mae grwpiau proffesiynol, gan gynnwys Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH), Ymchwil Canser y DU (CR-UK) a Chymdeithas Feddygol Prydain (BMA) wedi dod yn fwyfwy pryderus ynghylch materion diogelwch mewn perthynas â gwelyau haul a'r posibilrwydd y bydd pobl sy'n agored i niwed, yn enwedig pobl ifanc, yn eu camddefnyddio. Mae'r grwpiau hyn a mudiadau eraill ym maes iechyd y cyhoedd yn ymgyrchu ac yn lobïo Llywodraeth y DU i reoleiddio'r diwydiant gwelyau haul.

Ar 3 Rhagfyr 2007, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Strategaeth Diwygio Canser ar gyfer Lloegr, gan amlinellu eu cynigion ar gyfer y pum mlynedd nesaf. O safbwynt atal canser, roedd adran ar ganser y croen. Nododd ""Mae nifer yr achosion o ganser y croen yn cynyddu'n gyflym, sydd bron yn sicr yn adlewyrchu patrymau ymddygiad dros y degawdau diwethaf. Adroddodd y strategaeth fod yr Adran Iechyd yn adolygu'r opsiynau ar gyfer rheoleiddio'r diwydiant gwelyau haul ac fel cam cyntaf y bydd yn cywain rhagor o wybodaeth am nifer a lleoliad y gwelyau haul a pha mor aml y mae pobl ifanc dan oed yn defnyddio gwelyau haul". "

## Cyfarwyddyd Iechyd a Diogelwch Diwygiedig ar Offer Lliw Haul Uwchfioled

Mae Dirprwy Brif Gynghorydd Iechyd yr Amgylchedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mynychu cyfarfodydd o Weithgor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (y Gweithgor) / yr Adran Iechyd ar fy rhan i ystyried eu cyfarwyddyd ynghylch offer lliw haul. Cyhoeddwyd y cyfarwyddyd presennol yng nghanol y 1990au ar ffurf Nodyn Cyfarwyddyd Diwydiannol 209 (y cyfeirir ato fel INDG 209). Ers i INDG209 gael ei gyhoeddi, bu cryn newidiadau technolegol yn y diwydiant gwelyau haul yn ogystal â chynnydd yn eu defnydd. Cyhoeddwyd Cyfarwyddyd diwygiedig y Gweithgor ym Mai 2009. Mewn dau newid allweddol a wnaed i'r cyfarwyddyd blaenorol, mae'r Gweithgor yn awr yn argymell

1. na ddylai'r rhai dan 18 oed ddefnyddio gwelyau haul a

2. bod salonau sydd ag offer a weithredir gan ddefnyddio darnau arian yn cael eu goruchwylio gan staff hyfforddedig.

## Y Pwyllgor ar Agweddau Meddygol ar Belydriad yn yr Amgylchedd (COMARE)

Yn 2007, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda chefnogaeth Gweithrediaeth yr Alban, Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon a'r Adran Iechyd, i COMARE ddiweddaru eu cyngor ynghylch diogelwch gwelyau haul uwchfioled yn y DU. Sefydlwyd is-grŵp a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2007.

Cyhoeddwyd adroddiad COMARE gan yr is-grŵp ar 19 Mehefin 2009. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion i'r Llywodraeth - fe'u rhestrir isod. Rwy'n amlygu'r ddau argymhelliad cyntaf fel rhai a ddylai gael sylw arbennig.

Dylid gwahardd y rhai dan 18 oed rhag defnyddio gwelyau haul masnachol (gan gynnwys gwerthu neu hurio)

Dylid gwahardd cyfleusterau lliw haul heb oruchwyliaeth neu'r rhai a weithredir gan ddarnau arian

Dylai cofrestru a thrwyddedu pob cyfleuster lliw haul masnachol fod yn ofynnol

Dylid darparu clytiau i amddiffyn y llygaid a dylai eu gwisgo fod yn orfodol

Dylid darparu gwybodaeth am iechyd i'r defnyddwyr a dylai fod i'w gweld ar y peiriannau

Dylid sicrhau bod cleientiaid yn rhoi eu caniatâd ar sail penderfyniad cytbwys cyn defnyddio'r peiriannau

Dylid annog pobl sydd mewn perygl i beidio â defnyddio gwelyau haul

Dylid gwahardd honiadau na ellir eu profi bod manteision i iechyd

Dylai gwelyau haul gydymffurfio â'r safonau technegol perthnasol

Dylid gosod ar awdurdodau lleol ddyletswydd i arolygu eiddo a dylid rhoi iddynt bwerau a sancsiynau perthnasol

Dylid gosod gofynion o ran cymhwysedd a hyfforddiant staff

Dylid darparu mwy o gyllid ar gyfer ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd

Dylid adolygu hysbysebion gan y diwydiant gwelyau haul

Argymhellion ar gyfer ymchwil ychwanegol

## Ymchwil

### Ymchwil Canser y DU

Ar 18 Tachwedd 2008, cymeradwyais gomisiynu astudiaeth yng Nghymru i amcangyfrif pa mor aml yr oedd pobl ifanc yn defnyddio dyfeisiau lliw haul artiffisial. Comisiynwyd yr astudiaeth ddechrau Rhagfyr 2008. Cynhaliodd Ymchwil Canser y DU (CR-UK) astudiaeth debyg yn Lloegr (a noddwyd gan yr Adran Iechyd). Yn Ebrill 2009, cyflwynwyd adroddiad Ymchwil Canser y DU ar yr astudiaeth ar y defnydd o welyau haul gan blant yng Nghymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Ymchwil Canser y DU eisoes wedi rhoi'r canfyddiadau allweddol i'r Pwyllgor. Mae canlyniadau'r astudiaeth gyfan yn dangos bod y defnydd gan bobl ifanc yng Nghymru yn debyg i Loegr.

### Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol

Bob pedair blynedd mae'r Is-adran Strategaeth Iechyd y Cyhoedd (o fewn Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd, Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn cynnal astudiaeth Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol gyda'r rhai 11 i 16 mlwydd oed. Mae'r gwaith maes wedi'i gynllunio ar gyfer tymor yr hydref hwn ac mae holiadur newydd wedi'i lunio. Eleni mae dau gwestiwn wedi'u cynnwys am ba mor aml y defnyddir gwely haul a phryd roedd yr achlysur diweddaraf. Mae'r rhain wedi'u haddasu o'r cwestiynau a ddefnyddiwyd yn astudiaeth CR-UK. Bydd yr arolwg yn darparu data sy'n gynrychioladol o'r wlad gan ryw 7,500 o blant 11 i 16 mlwydd oed (sef 1,500 o bob blwyddyn ysgol 7-11) a bydd hefyd yn ein galluogi i groes-dablu defnydd o welyau haul yn erbyn ymddygiadau peryglus eraill, yn ogystal ag oedran, rhyw a chyfoeth y teulu.

## Amcanion Polisi

Y polisi y bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ddilyn yw y dylid annog pobl (yn enwedig plant) i beidio â defnyddio gwelyau haul am resymau cosmetig oherwydd bod mwy o risg yn sgil hynny o ganser y croen a phroblemau iechyd eraill. Bwriadaf wahardd defnyddio gwelyau haul gan bobl dan 18 mlwydd oed a chyflwyno mesurau rheoli ehangach ar ddefnyddio gwelyau haul yn y dyfodol, gan gynnwys:

Sancsiynau am beidio â chydymffurfio;

Sicrhau y darperir digon o glytiau i amddiffyn y llygaid;

Rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am y peryglon i iechyd sy'n gysylltiedig â defnyddio gwely haul a

Gwahardd gweithredwyr rhag hyrwyddo manteision defnyddio gwely haul nas profwyd.

Bwriadaf wahardd hefyd ddefnyddio gwelyau haul heb oruchwyliaeth neu ddefnydd a bennir gan y defnyddiwr a gwerthu neu hurio gwely haul i bobl dan 18 mlwydd oed.

## Opsiynau ar gyfer Deddfwriaeth

Yn sgil argymhellion COMARE, rwyf wedi gofyn i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried pob dull deddfwriaethol i alluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni'r amcanion polisi yr ydwyf wedi'u hamlinellu mewn perthynas â defnyddio gwelyau haul.

## Ystadegau ar Welyau Haul a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru

Ar 21 Gorffennaf 2009, gofynnodd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu ystadegau ynghylch nifer y salonau lliw haul yn ardal pob awdurdod lleol. Roedd yr wybodaeth a geisiwyd yn cynnwys dadansoddiad yn nodi a yw'r salonau lliw haul dan oruchwyliaeth / heb oruchwyliaeth, nifer y gwelyau haul a weithredir gan ddarnau arian, nifer a math y gwelyau ym mhob eiddo a'r math o eiddo lle mae'r gwelyau i'w cael (os nad ydynt mewn salonau pwrpasol). Defnyddir yr wybodaeth hon i helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried yr effaith y gallai unrhyw ddeddfwriaeth ei chael yng Nghymru. Mae'r swyddogion yn dal i ddisgwyl ffigurau gan un awdurdod lleol, ond mae'r 21 o ymatebion a gafwyd hyd yn hyn wedi hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru o 419 o fannau lliw haul. O'r rhain, mae 46 (11%) yn salonau heb eu staffio.

## Atal

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi SunSmart, sef ymgyrch genedlaethol y DU i atal canser y croen, ers iddi gael ei lansio yn 2003. Mae'r ymgyrch, a reolir gan Ymchwil Canser y DU ar ran pedair adran iechyd y DU, yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o beryglon canser y croen a'r angen am ymddygiad sy'n gwarchod rhag yr haul. Yn Ebrill 2008, lansiodd Ymchwil Canser y DU ei ymgyrch SunSmart

flynyddol gyda rhybudd di-flewyn-ar-dafod i ddefnyddwyr gwelyau haul y gall gael gormod o belydrau uwchfioled yn y salon lliw haul fod mor beryglus â llosgi ar y traeth. Roedd yr ymgyrch hon yn cynnwys taflenni a phosteri yn dangos effeithiau niwed i groen dynes a dyn a achoswyd trwy ddefnyddio gwelyau haul.

## Y Sefyllfa yn yr Alban

Derbyniodd Mesur Iechyd y Cyhoedd (yr Alban) gydsyniad Brenhinol ar ddydd Mercher 16 Gorffennaf 2008 ac mae'n un o Ddeddfau Senedd yr Alban yn awr. Mae nifer o ddarpariaethau yn ymwneud â gwelyau haul yn Rhan 8 y Ddeddf. Mae'r darpariaethau yn cynnwys:

Gwahardd gweithredwyr rhag caniatáu i'r rhai dan 18 oed ddefnyddio gwelyau haul mewn eiddo lliw haul masnachol;

Gwahardd gwerthu a hurio gwelyau haul i'r rhai dan 18 oed;

Gwahardd eiddo lle mae gwelyau haul heb oruchwyliaeth;

a'i gwneud yn ofynnol i weithredwyr roi gwybodaeth i'w cwsmeriaid am y peryglon iechyd cysylltiedig â defnyddio gwely haul.

Daw Rheoliadau'r Alban i rym ar 1 Tachwedd 2009 ond nid yw'r rheoliadau yn cynnwys pwerau i gau salon gwely haul. Mae'r sancsiynau am dorri'r rheoliadau yn cynnwys uchafswm dirwy o £2,500. Os yw awdurdodau lleol yn dewis trwyddedu sefydliadau lliw haul eu hunain, gallant wneud hynny trwy ddefnyddio pwerau cyffredinol yr Alban.

## Casgliad

Rwy'n argyhoeddedig bod defnyddio gwelyau haul heb reolaeth yn broblem i iechyd y cyhoedd. Rwy'n pryderu yn arbennig am bobl dan 18 oed yn defnyddio gwelyau haul ac am welyau haul a weithredir gan ddarnau arian. Bwriadaf wahardd pobl dan 18 oed rhag defnyddio gwelyau haul a gwahardd hefyd salonau gwely haul heb eu staffio yng Nghymru. Mae pob dull deddfwriaethol i gyflawni'r rhain ac amcanion polisi cysylltiedig eraill yn cael ei ystyried, sef: deddfwriaeth sylfaenol a wneir gyda Llywodraeth y DU trwy Senedd San Steffan; is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru dan fantell deddfwriaeth sylfaenol bresennol; a chynhwysedd deddfwriaethol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rwyf yn fodlon bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ac yn dal i wneud popeth y gall o ran datblygu ei bolisïau ar welyau haul ac adnabod yr opsiynau i ddeddfu er mwyn cyflwyno rheoliadau ar ddefnyddio gwelyau haul gan bobl dan 18 mlwydd oed. Ystyriaf y gwaith hwn yn flaenoriaeth uchel.

**Medi 2009**